| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **22 MEHEFIN 2015** |
| **TEITL:** | **Y CYNLLUN DIRPRWYO YNGHYLCH PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GERBYDAU HACNI/HURIO PREIFAT PAN NAD YW'R CERBYDAU'N CYDYMFFURFIO Â PHOLISI'R AWDURDOD** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Ar 17 Medi 2012, penderfynodd y Pwyllgor ddirprwyo pwerau i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol, i gymeradwyo penderfyniadau trwyddedu cerbydau tacsi ar gyfer cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.

1.2 Ar 8 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor y byddai aelod ychwanegol, sef y Cynghorydd Peter Read, yn cael ei gynnwys ar y 'panel penderfynu'.

1.3 Ym mis Hydref 2014, diweddarwyd Cyfansoddiad y Cyngor ac mae'n darparu yn Atodiad 3 i Adran 13, ynghylch y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion, bod dyletswyddau Pennaeth yr Adran Rheoleiddio fel a ganlyn:–

11.3.5 Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes **trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat** <u>ac eithrio'r materion a ganlyn</u> sy'n gyfrifoldeb Is-bwyllgor y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

(a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat pan fo adroddiad y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn datgelu euogfarn neu rybudd gan yr heddlu.

**(b) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat pan nad yw'r cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.**

(c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fo adroddiad y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn datgelu euogfarn neu rybudd gan yr heddlu.

## 2.0 PENDERFYNIADAU

2.1 Yn ystod y cyfnod rhwng 17 Medi 2012 a 30 Ebrill 2015 mae cyfanswm o 73 o drwyddedau wedi'u rhoi ar gyfer cerbydau sy'n groes i bolisi cyfredol Cyngor Gwynedd ar Gerbydau Hacni.

Gellir categoreiddio'r 73 trwydded fel a ganlyn:

**Adnewyddu Cerbydau** – mae cyfanswm o 30 trwydded wedi'u rhoi i berchnogion yn groes i bolisi wrth adnewyddu cerbyd presennol sydd wedi'i drwyddedu.

**Cerbydau Addas ar gyfer Cadeiriau Olwyn dros dair blynedd -** mae cyfanswm o 16 trwydded wedi'u rhoi i berchnogion cerbydau addas ar gyfer cadeiriau olwyn; fodd bynnag, roedd y cerbydau yn groes i ofynion y polisi 3 blwydd oed pan gawsant eu trwyddedu.

**Cerbydau nad ydynt yn addas ar gyfer Cadeiriau Olwyn dan dair blynedd** – mae cyfanswm o naw trwydded wedi'u rhoi i berchnogion cerbydau hacni nad

oeddent yn cydymffurfio â gofynion y polisi yn nhermau bod yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn ond a oedd yn cydymffurfio yn nhermau gofynion oed.

**Cerbydau nad ydynt yn addas ar gyfer Cadeiriau Olwyn dros dair blynedd** – mae cyfanswm o 18 trwydded wedi'u rhoi i berchnogion cerbydau hacni nad oeddent yn cydymffurfio â gofynion y polisi yn nhermau bod yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn na gofynion oed.

2.2 Yn ystod y cyfnod i fis Ebrill 2015, dengys y cofnodion mai dim ond un cais a wrthodwyd.

## 3.0 ADOLYGU TREFNIADAU CYFREDOL

3.1 Mae nifer y ceisiadau i drwyddedu cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi wedi cynyddu'n sylweddol ers gwnaed y penderfyniad i ddirprwyo penderfyniadau trwyddedu i'r Pennaeth Rheoleiddio mewn ymgynghoriad gyda'r 'panel penderfynu'.

3.2 Derbyniodd yr Uned Drwyddedu naw cais yn 2013, 48 cais yn 2014 a 29 cais yn 2015 yn y pedwar mis cyntaf yn unig.

3.3 Mae'r broses ymgynghori yn golygu bod gofyn i'r swyddog trwyddedu ymgynghori a chyfathrebu penderfyniadau rhwng yr ymgeisydd a thri aelod y 'panel penderfynu'. Mae'r broses yn un eithaf dwys gan fod nifer o ymgeiswyr yn awyddus i dderbyn penderfyniad ar eu cais cyn gynted â phosib.

3.4 Mae nifer o gwynion wedi'u gwneud yn ddiweddar i'r Cyngor ynghylch yr oedi a'r ffordd y mae ceisiadau i drwyddedu cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi yn cael eu prosesu. Yng ngoleuni'r cwynion hyn, ymgynghorodd y Pennaeth Rheoleiddio gyda'r Adran Gyfreithiol i ofyn cyngor ynghylch y trefniant presennol i wneud penderfyniadau. Roedd eu cyngor fel a ganlyn:

- Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, gwneir penderfyniadau ar geisiadau ffurfiol gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.
- Er mwyn gallu defnyddio darpariaethau apelio Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais ffurfiol.
- Nid oes gan y Pwyllgor na'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol unrhyw bŵer i roi cyngor.
- Dylid gwneud penderfyniadau ar geisiadau ffurfiol yn unig.
- Pe byddai aelodau'r 'panel penderfynu' yn methu gwneud penderfyniad yna fe'u heithrir rhag pleidleisio ar yr achos yng ngwrandawiad yr Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

3.5 Rhaid ailystyried y drefn bresennol ar gyfer ymdrin â cheisiadau i drwyddedu cerbydau yn groes i bolisi. Rhaid i'r broses ystyried a yw'r cais/sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd yn bodloni'r gofyn am 'gais ffurfiol'. Ni ellir gwneud penderfyniad ar geisiadau nad ydynt yn bodloni gofynion 'cais ffurfiol'.

## 4.0 'CAIS FFURFIOL' neu 'CAIS MEWN EGWYDDOR'

4.1 Mae 'cais ffurfiol' yn un sy'n bodloni gofynion a40 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847. Mae'r gofynion fel a ganlyn:-

- Rhaid i berchennog neu un o berchnogion y cerbyd hacni y gwneir cais ar ei gyfer, lofnodi cais at y diben hwnnw.
- Bydd y cais yn nodi
  - enw, cyfenw a chyfeiriad y person sy'n ymgeisio am drwydded o'r fath
  - enw, cyfenw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n berchen neu'n rhan-berchen y cerbyd hacni
  - enw, cyfenw a chyfeiriad pob person sy'n ymwneud yn unigol neu mewn partneriaeth gydag unrhyw berson arall, â chadw, cyflogi neu osod y cerbyd hacni i'w hurio.

4.2 Yn ogystal, yn unol ag a57 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae gan y Cyngor bŵer i orfodi ymgeiswyr i gyflwyno gwybodaeth o'r fath fel y tybia'n rhesymol sy'n angenrheidiol i bennu a ddylid rhoddi'r drwydded.

4.3 Yn unol â'r ffurflenni cais cyfredol i drwyddedu cerbyd a ddefnyddir gan y cyngor, mae gofyn i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a'r dogfennau a ganlyn.

- Rhif cofrestru'r cerbyd
- Gwneuthuriad a math y cerbyd
- Maint yr injan c.c. (fel y disgrifir yn nogfen cofrestru'r cerbyd)
- Lliw'r cerbyd (fel y disgrifir yn nogfen cofrestru'r cerbyd)
- Nifer y teithwyr
- Man(nau) lle cedwir y cerbyd fel arfer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
- Darparu copi o'r Ddogfen Cofrestru Cerbyd (cais cyntaf yn unig)
- Darparu copi o Dystysgrif Prawf MoT os yw'r cerbyd dros 3 blwydd oed
- Darparu copi o Dystysgrif Yswiriant y cerbyd yn cadarnhau defnydd ar gyfer 'Ceisio Hurio'
- Darparu copi o Drwydded Radio'r Swyddfa Gartref (os yw'n berthnasol)

4.4 Dylid ystyried ceisiadau sy'n bodloni gofynion a40 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 ac a57 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn 'geisiadau ffurfiol' a chanlyniad hynny yw y dylid rhoddi neu wrthod trwydded cerbyd hacni.

4.5 Ni ellir gwneud penderfyniad ar geisiadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion hyn ac felly fe'u hystyrir yn 'geisiadau mewn egwyddor'. Canlyniad pob cais mewn egwyddor yw y rhoddir cyngor i'r ymgeisydd, ar sail ddiduedd, ar ganlyniad tebygol eu cais, cyn cyflwyno cais ffurfiol.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Bod y Pwyllgor yn penderfynu y pennir 'ceisiadau ffurfiol' am gerbydau hacni/hurio preifat pan nad yw'r cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, dyddiedig Hydref 2014 h.y. fe'u penderfynir gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Yna, yn unol â'r broses, bydd gan yr ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

5.2 Bod y Pwyllgor yn penderfynu y darparir cyngor cyn gwneud cais gan yr Uned Drwyddedu, ar sail ddiduedd, ar ganlyniad tebygol eu cais, cyn cyflwyno cais ffurfiol, i'r holl 'geisiadau mewn egwyddor' a dderbynnir h.y. y rheini nad ydynt yn bodloni gofynion cais ffurfiol.

5.3 O ystyried yr uchod a'r effaith bydd y newidiadau a ddaw i rym oherwydd y Deddf Dadreoli 2005 yn cael ar y gweithdrefnau trwyddedu Tacsis a Hurio Preifat, fod y Pwyllgor yn cytuno bod y polisiau a'r arferion gwaith yn sy'n ymwneud a Trwyddedu tacis a hurio preifat yn cael eu diweddaru a eu hadolygu. Y polisiau sydd angen eu adolygu yw

- Polisi Trwydded Cyfunol Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat
- Polisi Trwyddedu Gweithredwr Hurio Preifat
- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat